Cain is Galeri's dance performance group – open to those over the age of 60. The sessions are held by professional dancer/choreographer/tutor – Cai Tomos. This term, the group will also be working on a project combining poetry and dance with poet Gwion Hallam.

**Dyddiadau'r tymor / Confirmed dates for the term:**
07.01.18 / 11.02.18 / 04.03.18 / 15.04.18
(mae'n bosib bydd sesiynau ychwanegol/extra sessions may be organised)

Croeso cynnes i aelodau newydd / A warm welcome to new members!
Gyda diolch i/with thanks to: Dawns i Bawb a Llenyddiaeth Cymru



**Dawns/ Dance**
**Lleoliad/Location:** S1
**Tocynnau/Tickets:** £60
am y tymor/for the term
*sesiynau ychwanegol/additional sessions: £10 yr un/each



**Dawns/ Dance**
**Lleoliad/Location:** S1
**Tocynnau/Tickets:** £3
y sesiwn/per session

# Estyneto

**Dyddiad/Date**
Dyddiadau Ionawr – Ebrill
January – April dates

**Amser/Time**
13:00 – 15:30

Ymunwch â ni ddwy waith y mis ar gyfer sesiynau dawns/symud i gerddoriaeth sydd yn arbennig i unrhyw berson dros 60 mlwydd oed. Caiff y sesiynau eu harwain am yn ail gan ddawnswyr a choreograffwyr arbennig iawn sef Cai Tomos ac Angharad Price Jones. Yr oll sydd angen arnoch yw'r awydd i gadw'n iach ac yn heini, dewch i roi cynnig arni. Mae'r sesiwn yn cynnig cyfle i sgwrsio dros baned o de.

Join us for bi-monthly dance/movement sessions specifically for those over the age of 60. The sessions are lead alternately by the inspirational dancers and choreographers, Cai Tomos and Angharad Price Jones. You do not need any previous dancing experience or skills – only the desire to stay fit and healthy. The session includes an opportunity to chat with a cup of tea,

**Dyddiadau'r tymor/dates for the term:** 07.01.18 / 21.01.18 / 11.02.18 / 25.02.18 / 04.03.18 / 18.03.18 / 15.04.18 / 29.04.18

Gyda diolch i/With thanks to: Dawns i Bawb



**Gweithdy/Workshop**
**Lleoliad/Location:** C1
**Tocynnau/Tickets:** £28 am y tymor o bedwar neu £7.50 fesul sesiwn / £28 for the series of four or £7.50 per session

## Sgriblo

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
13.01.18

**Amser/Time**
11:00 – 12:00

Sesiynau ysgrifennu misol ar gyfer plant 7–11 oed dan ofal Sian Northey. Nod y sesiynau yw annog plant i fwynhau ysgrifennu creadigol heb bwysau cwricwlwm nag athro.

A series of Welsh language creative writing workshops for children ages 7–11 led by Sian Northey.

**Dyddiadau'r tymor / The sessions will take place monthly on the following dates:**
13.01.18 / 10.02.18 / 03.03.18 / 14.04.18

Capasiti cyfyngedig – archebwch eich lle yn gynnar
Limited capacity – early booking recommended



**Sgwrs / Talk, Theatr / Theatre, Cerddoriaeth / Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** Mynediad am ddim (drwy docyn) / Free admission (with ticket)

**Gwasg y Bwthyn ac Ysgol Glanaethwy:**

## Sgin Ti Fonolog?

**Dathlu cyfrol newydd Cefin Roberts o fonologau i bobl ifanc**

**Dyddiad/Date**
Sul/Sunday
14.01.18

**Amser/Time**
19:00

Ers rhai blynyddoedd bellach fe ddaeth y fonolog yn gystadleuaeth boblogaidd gan lefarwyr o bob oedran mewn eisteddfodau bach a mawr, a chystadleuwyr yn gyson yn ffonio Cefin Roberts yn holi, 'Sgin ti fonolog i mi?' Ac felly mae wedi mynd ati i sgwennu'r gyfrol hon ar eu cyfer.
Bydd Angharad Price yn holi Cefin am ei gyfrol, a chawn gyfle i fwynhau detholiad o'r monologau gan ddisgyblion a chyn-ddisgyblion Ysgol Glanaethwy yn ogystal â cherddoriaeth gan Gôr Iau Glanaethwy.

A special evening to launch the new book of monologues – 'Sgin ti Fonolog?' (Gwasg y Bwthyn) for young people by Cefin Roberts.
The evening will include performances of some monologues by past and current members of Ysgol Glanaethwy. Glanaethwy's junior choir will provide musical entertainment and Cefin himself will be discussing the book with Angharad Price.

# Cerdd Dafod yn y Doc

**Dosbarthiadau Cynganeddu Newydd**

**Dyddiad/Date**
Nosweithiau Mawrth
Ionawr – Mehefin
Tuesdays (fortnightly)
January – June

**Amser/Time**
19:30 – 21:30

Da chi'n barod am gerdd dafod yn y doc?

Bob yn ail nos Fawrth, dewch i ymuno efo Rhys Iorwerth ac Iwan Rhys, a fydd yn cynnal dosbarthiadau cynganeddu hwyliog ac anffurfiol dros baned neu beint. Bydd un dosbarth i ddechreuwyr pur, a dosbarth arall i'r rheini sy'n fwy cyfarwydd â'r rheolau ond am ddatblygu neu ymarfer eu crefft. Bydd y pwyslais bob amser ar greu!

**Cynhelir y sesiynau ar y dyddiadau isod:**
Ionawr: 16, 30, Chwefror: 13, 27, Mawrth: 13, 27, Ebrill: 10, 24
Mai: 8, 22 , Mehefin: 5, 19

Poets Rhys Iorwerth and Iwan Rhys will lead a series of Welsh strict meter poetry classes for beginners and those who wish to develop and improve their craft.

**The sessions take place on the following dates (between 19:30 – 21:30):**
January: 16, 30, February: 13, 27, March: 13, 27, April: 10, 24, May: 8, 22
June: 5, 19



**Gweithdy / Workshop**
**Lleoliad/Location:** C1/C3
**Tocynnau/Tickets:** £7 y wers/ per class, £35 am y 6/for all 6



**Dawns / Dance**
**Lleoliad/Location:** S1
**Tocynnau/Tickets:** £5 am riant a plentyn (+ £3 fesul plentyn ychwanegol) / £5 for parent and child (+ £3 per additional child)

### Dawns i Bawb mewn partneriaeth â Galeri:
## Migl Di Magl Di

| Dyddiad/Date | Amser/Time |
|---|---|
| Dyddiau Iau (yn fisol)<br>Thursdays (monthly) | 10:30 – 11:30 |

Stori, dawnsio a chanu yn Gymraeg i blant bach 0–3 oed a'u rhieni/ gwarchodwyr. Cyfle i gyflwyno'r Gymraeg i'ch plentyn mewn sesiynau hwyliog a chreadigol. Croeso cynnes i bawb! Dewch i gael hwyl ac i gymdeithasu! Sesiynau yn ddibynol ar isafswm penodol o fynychwyr. Archebwch yn gynnar er mwyn sicrhau eich lle.

Story, singing and dancing in the Welsh language for children 0–3 years and their parents/guardians. A fun and creative opportunity to introduce Welsh to your child. All welcome including learners and non-Welsh speakers. A perfect opportunity to socialise and have fun!

**Cynhelir y sesiynau yn fisol ar y dyddiadau isod / The monthly sessions take place on the following dates:**
18.01.18 / 15.02.18 / 15.03.18 / 19.04.18

Capasiti cyfyngedig – awgrymwn eich bod yn archebu eich lle yn gynnar!
Limited capacity – early booking recommended!



**Cerddoriaeth / Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £6
Gostyngiadau/Concessions: £5
Prima: £5

## TONIC: Pwyll ap Sion a Nia Davies-Williams

| Dyddiad/Date | Amser/Time |
|---|---|
| Iau/Thursday<br>18.01.18 | 14:30 – 15:30 |

I ddechrau blwyddyn newydd o'n cyfres TONIC, rydym yn croesawu dau gerddor talentog iawn – Pwyll ap Sion a Nia Davies-Williams. Darlithydd, cerddor a chyfansoddwr o Sir Fôn ydi Pwyll, tra bod Nia yn gerddor preswyl yng nghanolfan gofal dementia, Bryn Seiont Newydd, yng Nghaernarfon. Daw'r ddau i chwarae casgliad o ganeuon traddodiadol Cymraeg, gyda threfniant o ambell gân poblogaidd Cymraeg a hynny ar y delyn, y piano a'r allweddellau.

Sharing the TONIC stage in the first concert of 2018 will be musicians Pwyll ap Sion Nia Davies-Williams. Their repertoire will include a collection of traditional Welsh songs, and some arrangements of popular Welsh songs on the harp, piano and keyboards.



Theatr/Theatre, Cerddoriaeth/Music
**Lleoliad/Location:** S2
**Tocynnau/Tickets:** £8
Gostyngiadau/Concessions: £7–£6 Prima: £7

### Cwmni Pendraw:
# 2071
### Prosiect Amgylcheddol

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
19.01.18

**Amser/Time**
13:30, 19:30

Cyflwyniad unigryw drwy ganeuon, geiriau dramatig a delweddau fideo sydd yn cwmpasu materion amgylcheddol llosg yr oes – llygredd awyr, gwastraff plastig, colled rhywogaethau, dadgoedwigo, diflaniad gwenyn ac wrth gwrs newid hinsawdd.
Cast yn cynnwys Wyn Bowen Harries (actor), Angharad Jenkins (Cerddor – Calan), Gwilym Bowen Rhys (Cerddor – Plu) a Sion Eirwyn Richards (Fideo).
Sut fyd fydd yno erbyn 2071?

A Welsh language show combining songs, words and video that outlines some of the environmental issues of today – air pollution, plastic waste, loss of species, deforestation, loss of bees and of course climate change.
What will the world be like in the year 2071?
Join Wyn Bowen Harries (actor), Angharad Jenkins (musician – Calan), Gwilym Bowen Rhys (musician – Plu) and Sion Eirwyn Richards (Video) for a presentation with a difference.



**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** Aur/Gold: £50 (cynnwys cyfarfod y chwaraewyr/include meet and greet), Arian/Silver: £20

### Modus yn cyflwyno/present:
# Meistri Dartiau Caernarfon Darts Masters

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
20.01.17

**Amser/Time**
17:30 (Tocynnau Aur | Gold Tickets)
19:00 (Tocynnau Arian | Silver Tickets)

Cyfle i fwynhau brwydr darts rhwng dau gyn bencampwr byd…
Raymond van Barneveld (Barney) fydd yn herio'r Cymro o Ddinbych Mark Webster (The Spider) yn Meistri Dartiau Sunbet. Mwynhewch awyrgylch unigryw noson ddarts gyda ambell un o'r gynulleidfa yn cael y cyfle i herio'r chwaraewyr proffesiynol!

Two former World Darts Champions meet in a special head-to-head showdown…
Dutch legend Raymond van Barneveld (Barney) will go up against Wales' very own Mark Webster (The Spider) in The Sunbet Darts Masters. Locals will get to sample the popular atmosphere of an evening at the darts, which has seen the sport explode worldwide in terms of ticket sales and TV viewing figures in recent years. But, unlike the big televised tournaments, fans and amateur players will have the chance to take on the professionals before they face off in the night's main event.



**Ffilm/ Film**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £4 (i gynnwys paned o de / to include a cup of tea) *gofalwyr am ddim gyda cerdyn Hynt/*carers free with a valid Hynt card

### Dangosiad hamddenol (dementia gyfeillgar) / Relaxed (dementia friendly) screening:

## Singin' in the Rain (U)

**Dyddiad/Date**
Mawrth/Tuesday
23.01.18

**Amser/Time**
14:00 – 16:00

Wrth i ni baratoi i agor y sinema newydd yn hwyrach yn y flwyddyn, un o'n cynlluniau yw rhaglennu dangosiadau ffilm hygyrch cyson – yn benodol ar gyfer pobl gyda dementia a'u teuluoedd, ond yn agored i bawb.
Cyfle i fwynhau ffilm o'r gorffennol mewn sinema fydd ddim yn hollol dywyll, a gyda lefel y sain ychydig yn is na'r arfer.

As we prepare to open our new cinema later in the year, one strand of programming we're keen to develop is a regular 'relaxed'/dementia friendly programme of film screenings.
Enjoy the film in a relaxed atmosphere where the lights will be left dimmed and volume slightly reduced.



**Cerddoriaeth / Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12
Gostyngiadau/Concessions: £10
Prima: £10

## Tra Bo Dau

### Rhys Meirion/Aled Wyn Davies/CôrNarfon

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
26.01.18

**Amser/Time**
19:30

Cyngerdd yng nghwmni Rhys Meirion ac Aled Wyn Davies ynghyd â'u cyfeilyddes Menna E Griffiths mewn noson i ddathlu'r traddodiad o ganu deuawdau.
Bydd teyrngedau i ddeuawdwyr enwog megis Ryan a Ronnie, Jac a Wil yn ogystal â deuawdau enwog o'r byd clasurol a chanu poblogaidd.
Yn ymuno â'r ddau fel jam rhwng dwy fechdan fydd CôrNarfon (eu perfformiad cyntaf yn Galeri) ac yn llywio'r noson yn ei ffordd ddihafal ei hun fydd Dilwyn Morgan.

Join Rhys Meirion and Aled Wyn Davies and their accompanist Menna E Griffiths in an evening set to celebrate the tradition of duet singing. Both will sing tributes to famous singers such as Ryan and Ronnie, Jac and Wil as well as other popular classical duets.
Joining the two will be local choir, CôrNarfon and presenting the night, in his own special and unequalled way will be Dilwyn Morgan.


© S4C



## Metropolitan Opera Live:

# Tosca

## (Puccini)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
27.01.18

**Amser/Time**
17:55

Stori gyffrous am serch, braw, a cham-drin grym, ac awch brwd am ryddid. Pan mae carcharor gwleidyddol yn dianc a chael noddfa mewn eglwys, mae canwr opera a phaentiwr yn cael eu tynnu i mewn i blot trofaus sy'n eu gosod ar drugaredd yr heddlu cudd a'i rwydwaith o arteithwyr ac ysbiwyr...
Kristine Opolais sy'n serennu fel y prima donna yn y teitl, ochr yn ochr â Vittorio Grigolo fel ei chariad artistig a Bryn Terfel fel pennaeth drwg yr heddlu – un o'i rannau nodedig.

Puccini's thrilling Tosca is a story of love, terror, the abuse of power, and the unquenchable longing for freedom. When an escaped political prisoner takes refuge in a church, an opera singer and a painter are drawn into a twisting plot that puts them at the mercy of the secret police and its network of torturers and spies...
Kristine Opolais stars as the titular prima donna, alongside Vittorio Grigolo as her artist lover and Bryn Terfel as the villainous police chief.

Amcan hyd/Estimated duration: 3" 03m
**Perfformir yn Eidaleg gydag is-deitlau Saesneg/**
**Sung in Italian with English subtitles**



**Darllediad Byw /**
**Live Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £13
Gostyngiadau/Concessions: £10
PRIMA: £11

# Caffi Angau

**Dyddiad/Date**
Ionawr – Ebrill
January – April

**Amser/Time**
18:00 – 20:00

Dau beth sy'n sicr i'n bywydau ni oll, sef ein bod yn cael ein geni a'n bod yn marw. Tra bod cyfleon lu i baratoi tuag at geni, prin yw'r trafod agored a pharatoi at angau bellach, er y damcaniaeth bod derbyn marwolaeth yn ffordd i ni fyw ein bywydau yn well.
Mae'r Caffi Angau yn cynnig gofod cyfeillgar i drafod marwolaeth dros baned a chacen – i rannu syniadau, profiadau, pryderon a gobeithion. Nid yw'n cynnig cwnsela, atebion nag unrhyw agenda penodol. Cynhelir y sesiynau yn Gymraeg dan ofal Bet Huws yn fisol ar nos Fercher olaf y mis.

Caffi Angau offers a friendly space to discuss death over a cuppa and cake. It is part of the family of Death Cafes held throughout the world and is conducted through the medium of Welsh by Bet Huws.

**Dyddiadau'r sesiynau/Sessions will take place on the following dates:**
31.01.18 / 28.02.18 / 28.03.18 / 25.04.18

**deathcafe.com**




**Sgwrs / Talk**
**Lleoliad/Location:** C1
**Tocynnau/Tickets:**
sesiynau am ddim / free sessions

## Frân Wen a Galeri
## yn cyflwyno / present:
# Ŵy, Chips a Nain

**Dyddiad/Dates**

| | |
|---|---|
| Gwener/ Friday, 02.02.18 | 10:15, 13:30 |
| Sadwrn/ Saturday, 03.03.18 | 11:00 |

Stori deuluol a gwirioneddol hyfryd sy'n dathlu'r berthynas unigryw rhwng Nain a'i ŵyr. Mae Guto yn caru treulio amser gyda'i Nain. Trip cwch i Iwerddon, picnic ar lan y môr, fflagiau semaffôr a thylwyth teg yn troi plant yn selsig! Ond mae'r antur fwyaf eto i ddod...
Wedi ei ysgrifennu gan Gwyneth Glyn, mae Ŵy, Chips a Nain yn ddarlun gonest o bwysigrwydd cariad, cyfeillgarwch a hwyl rhwng dwy genhedlaeth wrth wynebu bywyd gyda dementia.
Cast: Gwenno Hodgkins a Iwan Garmon

A truly heart-warming family tale celebrating the unique relationship between grandparent and grandchild. Guto loves spending time with his Nain. A boat trip to Ireland, picnics by the sea, semaphore flags and fairies turning children into sausages! But their biggest adventure is yet to come...
Written by Gwyneth Glyn, Ŵy, Chips a Nain (Egg, Chips & Grandma) is an honest portrayal of love, friendship and fun between two generations when facing life with dementia.
Cast: Gwenno Hodgkins & Iwan Garmon

Academi Gofal Cymdeithasol Pendine – Pendine Academy of Social Care

#WyChipsaNain

Addas i oed 7+
Suitable for ages 7+



**Theatr/ Theatre**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets: £8**
**Gostyngiadau/Concessions: £6**



Comedi / Comedy
**Lleoliad/Location:** S2
**Tocynnau/Tickets:**
£8 ymlaen llaw / in advance
£10 ar y diwrnod / on the day

## Kill for a Seat Comedy
**Clwb Comedi Galeri**

**Dyddiad/Date**
Mercher/Wednesday
07.02.18


**Amser/Time**
20:00

Mae hi'n fraint croesawu nosweithiau comedi 'Kill for a Seat' yma i Galeri yn fisol. Bydd y nosweithiau yma yn cyflwyno comedïwyr amrywiol gan gynnwys enwau mawr y clybiau comedi yn ogystal a rhoi llwyfan i dalentau ifanc a newydd y diwydiant.

We are delighted to welcome the legendary 'Kill for a Seat' comedy circuit tour to Galeri for a monthly fix of comedy from established and up and coming comedians in the scene today.

**Yn perfformio heno/ Performing tonight:**
**PAUL 'SILKY' WHITE / JENNY COLLIER / WES PACKER**
& gwestai arbennig/special guest

Canllaw oed : 18+ Capasiti cyfyngedig – archebwch yn gynnar i sirchau eich sedd!
Age guide: 18+ Limited capacity – book early to avoid dissapointment




Cerddoriaeth / Music
**Lleoliad/Location:** TH
(sgwrs/talk: Bar)
**Tocynnau/Tickets:**
£5 (cyn / before: 21.12.17) £7
(sgwrs: am ddim/talk: free)

**Sbarc yn cyflwyno/present:**
## Chroma – Adwaith – Serol Serol – Glain Rhys
**Gig Dydd Miwsig Cymru**

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
09.02.18

**Amser/Time**
18:00 (sgwrs/talk)
19:00 (gig)

Gig i ddathlu Dydd Miwsig Cymru gyda bandiau a cherddorion newydd y Sin Roc Gymraeg yn sgwrsio cyn chwarae.
Dewch i glywed aelodau bandiau ifanc y Sin Roc Gymraeg yn trafod eu profiadau, helyntion a'u llwyddiant wrth gyfansoddi, ymarfer a gigio ar draws Cymru a thu hwnt!
Bydd aelodau Chroma, Adwaith, Serol Serol a Glain Rhys ar y panel.
Yn dilyn y sgwrs bydd gig yn ein theatr gyda chymysgedd o setiau acwstig, roc ac electronig.

To celebrate Dydd Miwsig Cymru (Welsh Language Music Day) we are putting on a gig with 4 great acts playing in our theatre following a panel discussion.
Come and listen to members of new bands and musicians from the Welsh Music Scene as they discuss their experiences, successes and the stumbling blocks of getting into the music industry.
The panel will consist of members from Chroma, Adwaith, Serol Serol and Glain Rhys



**Gweithdy / Workshop**
**Lleoliad/Location:** C1
**Tocynnau/Tickets:** £28 am y tymor o bedwar neu £7.50 fesul sesiwn / £28 for the series of four or £7.50 per session

## Sgriblo

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
10.02.18

**Amser/Time**
11:00 – 12:00

Sesiynau ysgrifennu misol ar gyfer plant 7–11 oed dan ofal Sian Northey. Nod y sesiynau yw annog plant i fwynhau ysgrifennu creadigol heb bwysau cwricwlwm nag athro.

A series of Welsh language creative writing workshops for children ages 7–11 led by Sian Northey.

**Dyddiadau'r tymor/Dates for the term:**
13.01.18 / 10.02.18 / 03.03.18 / 14.04.18

Capasiti cyfyngedig – awgrymwn eich bod yn archebu lle ymlaen llaw
Limited capacity – early booking recommended

## Metropolitan Opera Live:
# L'Elisir d'Amore
## (Donizetti)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
10.02.18

**Amser/Time**
17:00

Mae Nemorino, y bachgen tlawd o'r wlad, mewn cariad ag Adina, y dirfeddianwraig hyderus, ond mae hi'n bell allan o'i gyrraedd – yn ariannol ac fel arall. Ond pan mae o'n prynu "diod hud" gan drafaeliwr, mae'r canlyniadau braidd yn annisgwyl. Y soprano addawol o Dde Affrica, Pretty Yende, yw'r Adina sionc, mae Davide Luciano yn ymddangos am y tro cyntaf gyda'r Met fel y milwr haerllug Belcore, ac Ildebrando D'Arcangelo yw Doctor Dulcamara sy'n gwerthu'r ddiod.

The poor country boy Nemorino is in love with Adina, a confident landowner, but she is way out of his league – financially and otherwise. But when he buys a "love potion" from a travelling quack, the results are rather more than he bargained for. Rising South African soprano Pretty Yende is the spirited Adina, Davide Luciano makes his Met debut as the arrogant soldier Belcore, and Ildebrando D'Arcangelo is the potion-peddling Doctor Dulcamara.

Amcan hyd/Estimated duration: 2" 39m
**Perfformir yn Eidaleg gydag is-deitlau Saesneg/**
**Sung in Italian with English subtitles**



**Darllediad Byw /**
**Live Broadcast**

**Lleoliad/Location:** TH

**Tocynnau/Tickets:** £13

Gostyngiadau/Concessions:
£10, Prima: £11

## Speakers from the Edge

# Andy Kirkpatrick Psychovertical: A Higher Education

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Sunday
11.02.18

**Amser/Time**
19:30

Rydym yn falch o groesawu Andy Kirkpatrick – un o brif fynyddwyr Prydain, dringwr muriau mawr ac arbenigwr ar deithiau gaeaf yn ôl i Galeri. Yn arbenigwr o fri ar offer dringo, mae Andy hefyd yn awdur a gwneuthurwr ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau – sy'n meddu ar y ddawn i swyno unrhyw gynulleidfa gyda'i ddull unigryw o adrodd storïau i symbylu, a hynny gyda hiwmor.
Ymunwch â ni wrth i Andy edrych yn ôl ar ddeugain mlynedd o ddringo ac anturiaethau, o'r Alpau i Batagonia, Yosemite i'r Ynys Las, yn adrodd stori am bopeth sy'n gwneud bywyd yn rhyfeddol.

Andy Kirkpatrick – top British mountaineer, big-wall climber and winter expedition specialist returns to Galeri.
A leading expert on climbing gear, Andy is also an award-winning writer and film-maker with an ability to captivate any audience with his unique brand of humorous and motivational story-telling. Andy Kirkpatrick looks back at forty years of climbing and adventures, from the Alps to Patagonia, Yosemite to Greenland, a story all the things that make life amazing.

Rhybudd: yn cynnwys iaith gref!
Warning: will include strong language!




**Bydd y sgwrs yn cyd-fynd â rhyddhau'r ffilm Psycho Vertical gan y cyfarwyddwr arobryn Jen Randell – dangosir yn Galeri 17.03.18 @19:30.**

**The talk coincides with the release of the film Psycho Vertical by award-winning director Jen Randell – screening in Galeri 17.03.18 @19:30.**

**Sgwrs/ Talk**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £16
Gostyngiadau/Concessions: £15 – £13, Prima: £14

GŴYL FFILM I BLANT A PHOBL IFANC

# PICS 2018

FILM FESTIVAL FOR CHILDREN
& YOUNG PEOPLE

RONDO

Prif Noddwyr PICS 2017 Main Sponsors

Llysgennad yr ŵyl/Festival Patron: Matthew Rhys

Gyda diolch i/With thanks to Gwyn & Mary Owen

## Dyddiad/Date
## 10.02.18 – 18.02.18

**8 diwrnod o ddangosiadau ffilm, gweithdai a seremoni wobrwyo fawreddog! (cadwch lygad allan am ddigwyddiadau ychwanegol i'r hyn sydd yn y rhaglen hon)**
**8 days of film screenings, workshops and a very special awards ceremony! (Please keep an eye out for additional events organised as part of the festival)**

Facebook: gwylPICS
Twitter: Gwyl_PICS

gwylffilmpics.com
#PICS2018



## Ferdinand (PG)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday 10.02.18 10:30
Sul/Sunday 11.02.18 10:30

Mae Ferdinand yn darw enfawr gyda chalon dyner, ond pan gaiff ei gamgymryd fel anifail peryglus, caiff Ferdinand ei ddal a'i rwygo o'i deulu a'i gartref.
Yn benderfynol o ddychwelyd, mae'n ymrestru tîm anaddas ar gyfer yr antur...

After Ferdinand, a bull with a big heart, is mistaken for a dangerous beast, he is captured and torn from his home.
Determined to return to his family, he rallies a misfit team on the ultimate adventure…

**£5.50 – £4.50 - £3.50 ymlaen llaw / in advance**
**£7 – £6 ar y diwrnod / on the day**



## Shorts for Wee Ones (U)

**Dyddiad/Date**
Llun/Monday 12.02.18 09:45 – 10:30

Casgliad o ffilmiau byrion o bob cwr o'r byd sydd yn addas i blant bach dros 3 mlwydd oed. Ffilmiau animeiddioedig unai heb iaith neu yn Saesneg yw rhain o wledydd megis Swede, Ffrainc, Rwsioa Yr Almaen a'r Swistir. Ymhlith y storïau mae teigrod sydd ddim yn bwyta llysiau, arth yn dysgu canu a pysgodyn sydd yn ddipyn o anturiaethwr… Cyfle perffaith i gyflwyno eich plentyn i fyd hudolus y sgrin fawr!
Diolch i'n ffrindiau yn Discovery Film Festival, Dundee am rannu'r ffilmiau arbennig yma.

This collection of short films from around the world will delight anyone over the age of three. With animated stories from Sweden, France, Russia, Germany and Switzerland – either in English or with no dialogue at all – there are tales of tigers not eating their vegetables, a bear learning to sing and a very adventurous fish…

**£2.50 ymlaen llaw/in advance, £3ar y diwrnod/on the day**
**£8 Teulu/Family (x4), £10 Teulu/Family (X5)**



## Shorts for Middle Ones (PG)

**Dyddiad/Date**
Llun/Monday 12.02.18 11:00 – 12:00

Mae'r ffilmiau sydd yn rhag o'r casgliad yma wedi'u dewis ar gyfer plant 8 oed a hŷn. Awr o ffilmiau byrion amrywiol tu hwnt – doniol, trist, iasol, emosiynol ac mae un ffilm yn ddigon i gorddi'ch stumog – cawn straeon eirth gwyn a hetiau iâ sydd yn lleihau, lladrad llun y Mona Lisa a chawn gamu i fyd dau gamelion tra wahanol…

For audiences aged eight and over, these short films offer a broad and brilliant world view - funny, sad, thrilling, emotional and, in one particular case, a tad stomach-churning – with stories of polar bears and shrinking ice caps, mad-cap gold heists and the weird and wonderful worlds of two very different chameleons…

**£2.50 ymlaen llaw/in advance, £3ar y diwrnod/on the day**
**£8 Teulu/Family (x4), £10 Teulu/Family (X5)**



## BAFTA Kids: Behind the Scenes

**Cyflwynydd/Presnted by: Katie Thistleton (CBBC)**

**Dyddiad/Date**
Mawrth/Tuesday 13.02.18 14:30 – 16:00

P'nawn o ddathlu ffilmiau, rhaglenni teledu a gemau a enwebwyd ar gyfer Gwobrau Plant BAFTA. Golwg hwyliog tu cefn i'r llenni ar ffilmiau, cwestiynau ac atebion o'r gynulleidfa, heriau a chystadleuaeth arlunio. Dyma gyfle i weld y talentau tu ôl i'r enwebiadau gan actorion, animeiddwyr, dylunwyr a chyfarwyddwyr. Wedi ei anelu at blant 7-12 oed, bydd cyfleoedd i'r gynulleidfa gymryd rhan, tynnu hunluniau a chasglu llofnodion ar ddiwedd y sioe.

A showcase of the films, television and games nominated at the BAFTA Children's Awards. A fun mix of behind-the-scenes films, audience Q&As, challenges and a drawing competition. This event highlights the talent behind the nominations from actors to animators, designers to directors. This event is aimed at children ages 7–12.

**£5 plant/children, £2 oedolion/adults**



## Jumanji (PG)

**Dyddiad/Date**

| | | |
|---|---|---|
| Mercher / Wednesday | 14.02.18 | 10:00 |

Wrth i ni baratoi i ddangos ffilm newydd Jumanji "Welcome to the Jungle', cyfle i fwynhau ffilm wreiddiol Jumanji o 1995 gyda'r diweddar Robin Williams. Daw gêm fwrdd hudol 'Jumanji' a tro ar fyd i'r brawd a chwaer Peter a Judy Shepherd... yr unig ffordd i stopio'r anrhefn yw drwy gwblhau'r gêm unwaith ac am byth...

As we prepare to screen the new Jumanji film "Welcome to the Jungle", here is an opportunity to enjoy the original 1995 film starring the late Robin Williams. When two kids find and play a magical board game, they release a man trapped for decades in it and a host of dangers that can only be stopped by finishing the game…

**£2 ymlaen llaw/in advance, £3 ar y diwrnod/on the day**



## Coco

**Dyddiad/Date**

| | | |
|---|---|---|
| Mercher / Wednesday | 14.02.18 | 12:30, 15:00 |
| Iau / Thursday | 15.02.18 | 10:00 |
| Gwener / Friday | 16.02.18 | 10:00 |

Er gwaetha'r ffaith bod ei deulu wedi gwahardd cerddoriaeth, mae Miguel yn breuddwydio am gael bod yn gerddor llwyddianus fel ei arwr – Ernesto de la Cruz. Er mwy profi ei hun, mae Miguel yn darganfod ei hun ym myd lliwgar a phrydferth y Meirw wedi cyfres o ddigwyddiadau rhyfeddol…

Despite his family's baffling generations-old ban on music, Miguel dreams of becoming an accomplished musician like his idol, Ernesto de la Cruz. Desperate to prove his talent, Miguel finds himself in the stunning and colourful Land of the Dead following a mysterious chain of events…

**£5.50 – £4.50 - £3.50 ymlaen llaw / in advance**
**£7 – £6 ar y diwrnod / on the day**






## The Greatest Showman

**Dyddiad/Date**

| | | |
|---|---|---|
| Mercher / Wesnesday | 14.02.18 | 19:00 |
| Iau / Thursday | 15.02.18 | 13:00 |
| Sadwrn / Saturday | 17.02.18 | 14:00 |

Wedi cael ei ysbrydoli gan ddychymyg yr unigryw P.T.Barnum – un o'r perfformwyr gorau a fu erioed!
Sioe gerdd sydd yn dathlu genedigaeth y busnes adloniant ac sy'n adrodd hanes y weledigaeth a ddatblygodd i fod yn un o'r sioeau mwyaf llwyddianus yn y byd…

Inspired by the imagination of P.T. Barnum – an original musical that celebrates the birth of show business…
Barnum was a visionary who rose from nothing to create the "Greatest Show on Earth," a spectacle and celebration of his larger-than-life imagination that captivated audiences around the globe…

**£5.50 – £4.50 - £3.50 ymlaen llaw / in advance**
**£7 – £6 ar y diwrnod / on the day**

## Gwobrau PICS 2018 Awards

**Dyddiad/Date**

| | | |
|---|---|---|
| Iau / Thursday | 15.02.18 | 19:00 |

Mae'r noson fawr wedi cyrraedd – seremoni wobrwyo arbennig Gŵyl Ffilm PICS 2018. Dyma uchafbwynt yr Ŵyl flynyddol sydd yn gwobrwyo gwneuthurwyr ffilm o bob oed.
Bydd parti ôl-sioe yn y bar i ddilyn ac i ddathlu!

The big night has arrived…. The PICS 2018 Film Festival awards ceremony. This is the highlight of the annual festival as we celebrate and award filmmakers of all ages.
A post-show party will follow in the bar!

**£5, £3 plant/children**



## Jumanji: Welcome to the Jungle

**Dyddiad/Date**

| | | |
|---|---|---|
| Gwener / Friday | 16.02.18 | 13:00 |
| Sadwrn / Saturday | 17.02.18 | 11:00 |

Mae pedwar plentyn yn eu harddegau yn chwarae gêm gyfrifiadurol 'Jumanji' pan cânt eu sugno mewn i'r gêm fel y cymeriadau a ddewiswyd. Er mwyn cael camu nôl i'r byd go iawn – mae'n rhaid goroesi'r sialensau yn y jyngl…

The tables are turned as four teenagers in detention are sucked into the world of Jumanji…
Four teenagers discover an old video game console and are literally drawn into the Jumanji's jungle setting becoming the adult avatars they chose. What they discover is that you don't just play Jumanji –Jumanji plays you. They'll have to go on the most dangerous adventure of their lives, or they'll be stuck in the game forever…

**£5.50 – £4.50 - £3.50 ymlaen llaw / in advance**
**£7 – £6 ar y diwrnod / on the day**



## Gweithdy Animeiddio / Animation Workshop

**Dyddiad/Date**

Gwener / Friday 16.02.18 10:00 – 17:00

Dewch i ddysgu sut mae creu amrywiaeth o greaduriaid môr.
Bydd TAPE Community Music and Film wedyn yn dangos i chi sut i ddod â'r creaduriaid hyn yn fyw drwy ddull stop-motion animeiddio.
Bydd y cymeriadau/animeiddiadau yn cael eu defnyddio yn ffilm nesaf TAPE – Below the Waves.

The TAPE team will help you create a variety of wonderful sea creatures and show you how to bring them to life through the process of stop-motion animation.
The characters/animation created will be used in the opening credits of TAPE's next feature film - Below the Waves.

**£5**





## British Winters (15)

**Dyddiad/Date**
Gwener / Friday 16.02.18 18:00

Cyfle i wylio y ffilm a gynhyrchodd TAPE yn Hen Golwyn ar gyllideb o ddim ond £20,000. Ffilm sydd yn dilyn hans llanc ifanc wrth iddo ail asesu ei fywyd di-bwrpas dros gyfnod y Nadolig… Bydd cynhyrchydd y ffilm Steve Swindon yn cyflwyno'r ffilm ac yn trafod prosiect ddiweddaraf y Cwmni – Below the Waves.

An opportunity to see the first feature film produced by Old Colwyn based charity – TAPE on a shoestring budget of only £20,000. The film was shot in north Wales and made almost entirely by an army of volunteers.
British Winters follows the tale of one man's struggle with apathy and despondency.

**Am ddim / free screening**

## Wonder (PG)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday 17.02.18 18:30
Sul/Sunday 18.02.18 14:00

Wedi ei eni gyda gwahaniaethau wynebol sydd hyd yn hyn wedi ei rwystro rhag mynychu ysgol brif ffrwd, nawr mae "Auggie" yn dechrau yn yr ysgol gynradd leol. Wrth i'w deulu, ei gyd-ddisgyblion newydd a'r gymuned ehangach gael trafferth trafod a derbyn y gwahaniaethau – mae taith ryfeddol Auggie yn eu cyd-gysylltu ac yn profi na allwch fod yn un o'r dorf pan eich gannwyd i fod yn wahanol…

Born with facial differences that, up until now, have prevented him from going to a mainstream school, "Auggie" becomes the most unlikely of heroes when he enters the local fifth grade. As his family, his new classmates, and the larger community all struggle to discover their compassion and acceptance – Auggie's extraordinary journey unites them all and proves you can't blend in when you were born to stand out…

**£5.50 - £4.50 - £3.50 ymlaen llaw / in advance**
**£7 - £6 ar y diwrnod / on the day**

sbarc

## Diddordeb ymuno â prosiect Sbarc?
## Interested in joining Sbarc?

**Prosiect celf Galeri yw Sbarc sydd yn cynnig gwersi wythnosol mewn drama ac ysgol roc yn ogystal â gweithdai amrywiol drwy gydol y flwyddyn. Os hoffech ymuno â dros 200 o blant a phobl ifanc o'r ardal sydd yn aelodau yn barod - gadewch i ni wybod!**

**Galeri's arts project sbarc run weekly classes in performance and rock school… If you would like to join over 200 other children and young people and become a member, let us know!**

sbarc · Galeri Caernarfon · Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales · Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government · Cyngor Gwynedd Council



**Ffilm/Film, Sgwrs/Talk**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £15
Gostyngiadau/Concessions: £10, Prima: £10
Grŵp (10+)/Group: £13.50

# Kendal Mountain Festival Tour (12A)

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
22.02.18

**Amser/Time**
19:30

Yn dilyn taith lwyddiannus y llynedd, mae Kendal Mountain Festival yn dychwelyd i Galeri fel rhan o'u taith o Brydain yn ystod 2018. Ymunwch â'r criw am noson llawn ffilmiau anhygoel a sgyrsiau ysbrydoledig gan rai o anturwyr gorau'r byd. Dewch i fwynhau ysbryd arbennig gŵyl sy'n dathlu darganfod rhai o dirweddau mwyaf epig ac unigryw y ddaear.

After the success of their 2017 UK Tour the award-winning Kendal Mountain Festival is delighted to announce its UK Tour for 2018. Enjoy an evening packed full of amazing films and awe-inspiring talks from some of the world's most impressive adventurers. Join in the spirit and inspiration of the Festival and celebrate the exploration of some of the wildest places on earth...

KENDAL MOUNTAIN FESTIVAL



Cerddoriaeth / Music
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £6
Gostyngiadau/Concessions: £5
Prima: £5

## TONIC: Beth Celyn

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
23.02.18

**Amser/Time**
14:30 – 15:30

Cyfle'r gantores-gyfansoddwraig ifanc o Ddinbych, Beth Celyn yw perfformio ar lwyfan TONIC heddiw.
Yn 2017 bu i Beth ddychwelyd i Gymru ar ôl tair blynedd yn astudio ac yn gweithio yn Llundain.
Mae ei cherddoriaeth yn frith o ddylanwadau indie a gwerin. Cyhoeddwyd ei EP cyntaf ar label Sbrigyn Ymborth a p'nawn 'ma cawn flas o'i chyfansoddiadau diweddaraf yn ogystal â'r hen ffefrynau. Beth sy'n gyfrifol am sgriptio'r sioe gerdd Ker-Is y bydd criw Uwchradd Sbarc yn ei berfformio ar Fawrth 14eg.

Young singer-songwriter Beth Celyn from Denbigh performs in today's TONIC. Having recently returned to north Wales after a period studying/working in London. Her music boasts a diverse fusion of indie and folk influences. An opportunity to hear Beth's old favourites and her latest songs – from her first EP on the Sbrigyn Ymborth label.



Darllediad Byw / Live Broadcast
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12
Gostyngiadau/Concessions: £10 - £7.50, Prima: £7.50

NT Live:
## Cat on a Hot Tin Roof (15)

**Dyddiad/Date**
Gwener/Friday
23.02.18

**Amser/Time**
19:00

Ar noson fyglyd ym Mississippi, mae Brick, a arferai fod yn gannwyll llygad pawb ar un adeg, a'i wraig dlos, ond rhwystredig, Maggie, wedi ymgynnull gyda gweddill y teulu i ddathlu penblwydd y Tad yn 65 oed. Wrth i'r wyrion ganu a'r alcohol lifo, mae dyheadau dwfn ac ystryw ddieflig yn llywio'r noson tuag at drychineb anorfod… Perfformiad o'r campwaith gan Tennessee Williams, gyda cast anhygoel sy'n cynnwys Sienna Miller, Jack O'Connell a Colm Meaney.

On a steamy night in Mississippi, a Southern family gather at their cotton plantation to celebrate Big Daddy's birthday. The scorching heat is almost as oppressive as the lies they tell. Brick and Maggie dance round the secrets and sexual tensions that threaten to destroy their marriage. With the future of the family at stake, which version of the truth is real – and which will win out? Tennessee Williams' twentieth century masterpiece stars Sienna Miller, Jack O'Connell and Colm Meaney.

(Recordiwyd yn y Young Vic, Llundain
Captured live from the Young Vic, London)

## Metropolitan Opera Live:
# La Bohème
## (Puccini)

**Dyddiad/Date**
Sadwrn/Saturday
24.02.18


**Amser/Time**
17:30

Mae opera fwyaf poblogaidd y byd yn dychwelyd gyda chast ifanc cyffrous. Mae'r bardd tlawd Rodolfo a'i ffrindiau artistig yn crafu byw yn y Baris fohemaidd, yn canlyn eu celfyddyd, yn chwerthin, yn ffraeo, yn osgoi'r landlord, ac yn cael jolihoet yn eu caffi lleol. Pan mae Rodolfo'n cwrdd â'r Fimì dlos, mae'r ddau'n syrthio mewn cariad ar unwaith. Ond mae Mimì'n wael, mae Rodolfo'n genfigennus, ac mae eu serch ar ben cyn cychwyn.

The world's most popular opera returns with an exciting young cast in Franco Zeffirelli's legendary production. Poverty-stricken poet Rodolfo and his artist friends eke out a precarious existence in bohemian Paris, alternately practising their art, laughing, quarrelling, dodging the landlord, and living it up in their local cafe. When Rodolfo meets the delicate Mimì, the pair instantly fall in love. But Mimì is ill, Rodolfo is jealous, and their romance is doomed from the start.

Ymhlith y cast mae'r sêr enwog Sonya Yoncheva a Michael Fabiano /
Starring opera superstars Sonya Yoncheva and Michael Fabiano.

Amcan hyd/Estimated duration: 2" 55m
**Perfformir yn Eidaleg gydag is-deitlau Saesneg/**
**Sung in Italian with English subtitles**



**Darllediad Byw /**
**Live Broadcast**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £13
Gostyngiadau/Concessions: £10
Prima: £11



**Cerddoriaeth / Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £4
Gostyngiadau/Concessions: £3

**Canolfan Gerdd Williams Mathias**
## Llwyfan Cerdd

**Dyddiad/Date**
Sul/Sunday
25.02.18

**Amser/Time**
15:00

Dewch i glywed rhai o fyfyrwyr Canolfan Gerdd William Mathias yn perfformio rhaglen amrywiol.

Listen to students from the Canolfan Gerdd William Mathias Music Centre perform a varied programme.

CANOLFAN GERDD William Mathias

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

# Priodasau Weddings

**Mae Galeri yn cynnig lleoliad perffaith ar gyfer eich diwrnod mawr… Boed yn frecwast priodas i griw o hyd at 60 yn y Stiwdio neu ar gyfer 150 yn y Theatr – gallwn weithio gyda chi i wireddu eich breuddwyd.**

**Galeri offers the perfect venue and location for your big day… We can accommodate wedding receptions for up to 60 guests in our Studio or for larger weddings – up to 150 in the Theatre.**

**I drafod dyddiadau neu am sgwrs bellach, cysylltwch â / To discuss dates/availability or for an informal chat, contact:**
**Iona Davies, 01286 685 218**
**iona.davies@galericaernarfon.com**



Cerddoriaeth/Music
Lleoliad/Location: TH
Tocynnau/Tickets: £6
Gostyngiadau/Concessions: £5
Prima: £5

## TONIC: Gwilym Bowen Rhys

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
01.03.18

**Amser/Time**
14:30–15:30

Y canwr/cyfansoddwr o Fethel, Gwilym Bowen Rhys, sydd yn perfformio heddiw. Disgwyliwch gyngerdd sydd yn cyfuno cymysgedd o faledi a chaneuon cyfoes, y digri a'r dwys, yn ei arddull egnïol ac angerddol ei hun. Bydd yn cyflwyno alawon traddodiadol o Gymru ac yn bwrw goleuni ar ein llenyddiaeth gynhenid odidog a'i rôl mewn cân.

Gwilym Bowen Rhys makes his TONIC debut performing a mixture of old and contemporary ballads and songs, in his own energetic and passionate style. He will present traditional melodies from Wales and will also showcase our remarkable literature and its role in song.

### Gig Gŵyl Dewi:
# Lleuwen
### gyda chefnogaeth gan/supported by Gwilym Bowen Rhys

**Dyddiad/Date**
Iau/Thursday
01.03.18

**Amser/Time**
20:00

Mae'r cerddor Lleuwen Steffan yn teithio'r byd yn perfformio ac wedi ymgartrefu yn Llydaw ers sawl blwyddyn gyda'i gŵr a'u dau o blant, ond mae hi'n ymwelydd cyson â gwlad ei mebyd ac yn cyflwyno cyngherddau ymhob rhan o Gymru. Bu'n rhan o gynhyrchiad Llechi yn Pontio, ac yn fwy diweddar bu'n recordio albwm newydd yn stiwdio Sain, Llandwrog. Mae ei chaneuon teimladwy yn tynnu eu dylanwadau o gerddoriaeth gwerin, gydag arlliw o jazz, blues a dogn go helaeth o emynau Cymru. Braint yw ei chroesawu i berfformio ar lwyfan Galeri ar Ddydd Gŵyl Dewi. Bydd y canwr gwerin Gwilym Bowen Rhys yn agor y noson.

Lleuwen Steffan is a local-born musician who travels the world performing her work. She now lives in Brittany with her husband and her two children, but she is a regular visitor to Wales, and has recently been recording a new album at Sain's Llandwrog studio.
Her sensitive and often poignant songs draw their influences from the worlds of folk, jazz, blues and a certain regard for Welsh hymns.
It is a privilege to welcome her to perform at Galeri on St David's Day.
Folk singer Gwilym Bowen Rhys will open the evening.

**Bargen/Bargain**
Tocynnau i'r 3 sioe gyda'r symbol ❀ am ddim ond £25
Tickets for all 3 events with this symbol ❀ for only £25



**Cerddoriaeth/ Music**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12
Gostyngiadau/Concessions: £10
Prima: £10



**Comedi/Comedy**
**Lleoliad/Location:** TH
**Tocynnau/Tickets:** £12
Gostyngiadau/Concessions: £10
Prima: £10

## Stifyn Parri: Cau dy Geg!

| **Dyddiad/Date** | **Amser/Time** |
|---|---|
| Gwener/Friday<br>02.03.18 | 19:30 |

Sioe un dyn heb flewyn ar dafod, gan un o gegau mwya'r wlad – sydd wedi gweithio hefo rhai o ser mwya'r byd. Mae'r entrepreneur a'r diddanwr Stifyn Parri wedi serennu yn y West End ac wedi gweithio hefo rhai o enwau mwya'r diwydiant adloniant a fo oedd yn gyfrifol am y gusan gynta hoyw ar deledu ag ymddangosodd ar y Newyddion Cenedlaethol! Ar ôl blynyddoedd o gadw ei geg ar gau, ma' hi'n amser iddo rannu'r 'tantryms', y cyfrinachau a'r ddrama gefn llwyfan.

Actor and entrepreneur Stifyn Parri presents a one-man show in which he spills the backstage beans on his career in showbiz.

**Bargen/Bargain**
